| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **19 Mawrth 2013** |
| **Aelod Arwain:** | **Aelod Arwain – Cyllid ac Effeithlonrwydd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cyllid ac Asedau** |
| **Teitl:** | **Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Cynigion Cyfalaf a gafwyd i'w cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2013/14.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r tri phwyllgor craffu, wedi cyfarfod nifer o weithiau i ystyried cynigion a baratowyd gan bob adran.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cabinet yn cefnogi'r prosiectau a ddangosir yn atodiad 1 i'w cynnwys yng nghynllun cyfalaf 2013/14, a'i fod yn argymell hynny i'r Cyngor llawn.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae setliad cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013/14 wedi gostwng 15.4% (£888k) ers 2012/13. Mae hwn yn parhau'r setliadau cyfalaf sâl iawn a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru dros y pum mlynedd ddiwethaf. Yn ogystal â hyn, mae grantiau penodol yn y dyfodol yn debygol o gael eu gosod ar lefel is nag yn y gorffennol.

4.2 Heb fuddsoddiad cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, yr unig ddewis sydd gan y Cyngor yw dibynnu ar ei adnoddau ei hun i fuddsoddi mewn prosiectau allweddol. Golyga hyn naill ai gwerthu asedau i gynhyrchu derbyniadau neu ddefnyddio Benthyca Darbodus.

4.3 Mae'r Cyngor yn anelu at gael gwared â nifer o safleoedd yn ystod ffrâm amser tair blynedd yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, mae cael gwared ag asedau'n gallu bod yn broses araf, gyda gwerthoedd yn ansicr ac amseru derbyniadau'n anodd ei ragweld. Mae'r amodau economaidd cyfredol hefyd yn ychwanegu risg pellach a byddant yn rhoi pwysau tuag i lawr ar werthoedd. At ddibenion yr adroddiad hwn, ni thybiwyd unrhyw dderbyniadau cyfalaf newydd a'r unig gyllid a ddyrannwyd yw'r cyllid hwnnw a gafwyd eisoes.

4.4 Dangosir isod y cyllid sydd ar gael ar gyfer 2013/14:

| **Ffynhonnell** | **Swm £000** |
|---|---|
| Grant Cyfalaf Cyffredinol | 1,844 |
| Benthyca â Chymorth Heb ei Neilltuo | 3,022 |
| Benthyca Darbodus – Priffyrdd | 4,108 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,661 |
| Cronfeydd Wrth Gefn Heb eu Gwario a ddygwyd ymlaen | 933 |
| Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi | 353 |
| **Cyfanswm** | **11,921** |
| Cyllid a ymrwymwyd eisoes | 360 |
| **Cyllid sydd ar gael 2013/14** | **11,561** |

4.5 Mae'r cyllid a ymrwymwyd eisoes yn dod o benderfyniadau blaenorol a wnaed gan yr aelodau ac mae'n cynnwys:

- Gwaith Iechyd a Diogelwch yn Ysgol Glan Clwyd, Ysgol Brynhyfryd ac Ysgol Uwchradd y Rhyl - £360k

4.6 Mae'r Cynllun Cyfalaf yn gwario arian ar ddau fath o brosiect. Y math cyntaf yw prosiectau untro fel ysgol newydd neu ailwampio canolfan hamdden, a'r ail fath o wariant yw 'dyraniad bloc'. Rhaglenni gwaith parhaus yw'r rhain sy'n ymestyn dros nifer o flynyddoedd (na fydd modd eu cwblhau byth efallai) e.e. cynnal a chadw ysgolion. Hwyrach y talir am elfennau o'r gwaith hwn o gyllidebau atgyweirio a chynnal a chadw ond ariennir rhan sylweddol drwy'r cynllun cyfalaf.

**Argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol**

4.7 Yng ngoleuni'r toriadau parhaus i'r adnoddau cyfalaf sydd ar gael i'r Cyngor, cytunodd y Grŵp Buddsoddi Strategol i wahodd cynigion yn unol â dyraniadau bloc a gytunwyd yn flaenorol o adrannau. Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol wedi adolygu 13 o gynigion dros nifer o gyfarfodydd. Mae Atodiad 1a yn cynnwys y meini prawf sgorio a ddefnyddiwyd i werthuso prosiectau.

4.8 Cyflwynwyd pob cynnig gan bennaeth gwasanaeth. Disgrifir isod rai materion a gododd o'r broses hon:

- Mae'r cynigion cynnal a chadw cyfalaf ysgol a heblaw ysgolion yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol fel Gwaredu Asbestos, Gwaith Asesu Risg Tân, Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd etc. Argymhellir dyrannu £1.915m i Waith Cynnal a Chadw Cyfalaf Ysgol (sef £190k o gynnydd ers 2012/13) a £450k i

waith cynnal a chadw cyfalaf heblaw ysgolion. Argymhellir ymhellach fod y Penaethiaid Gwasanaeth priodol yn pennu'r union ddyraniadau i'r gwaith penodol sy'n ofynnol, yn nhrefn blaenoriaeth.

- Mae Priffyrdd wedi cael £100k i gefnogi benthyca darbodus yn rhan o'r gyllideb refeniw ar gyfer 2013/14. Bydd hyn yn caniatáu tuag £1.65m o wariant cyfalaf. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu £162k o gyllid refeniw i Sir Ddinbych i ariannu benthyca darbodus, a gyda'i gilydd bydd hyn yn cynhyrchu rhyw £4.10m o waith cyfalaf priffyrdd. Yn ogystal â hyn, cynigir cefnogi £338k o waith lliniaru llifogydd, £100k o waith i ailosod unedau a cholofnau goleuadau stryd peryglus ac £1m o ddyraniad bloc ar gyfer gwaith strwythurol ac atgyweiriadau eraill, gan gynnwys pontydd. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o £5.5m i'r rhaglen gyfalaf Priffyrdd arfaethedig ar gyfer 2013/14.

- Yn y blynyddoedd blaenorol, mae'r Cyngor wedi cynnwys £1.0m wrth gefn yn y cynllun cyfalaf i ymdrin ag unrhyw amgylchiadau annisgwyl. O ystyried bod llai o gyllid cyfalaf ar gael gan Lywodraeth Cymru, mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol yn argymell lleihau'r gronfa wrth gefn i £0.5m, ond bod yr alwad £0.5m gyntaf ar unrhyw dderbyniadau cyfalaf yn y dyfodol yn cael ei defnyddio i adfer lefel y gronfa wrth gefn i £1.0m.

- Mae'r Grŵp Buddsoddi Strategol wedi ystyried cynnig Cam 2 y Strategaeth TGCh ac mae'n nodi'r gofyniad am fuddsoddiad cyfalaf i gefnogi gwelliannau mewn technoleg ac uchelgais y Cyngor i Foderneiddio. Mae'r grŵp yn argymell £170k i gefnogi'r cynnig hwn, yn amodol ar waith pellach i bennu'r gofyniad cyllideb refeniw i'r prosiect hwn.

4.9 Yn Atodiad 1, dangosir y prosiectau a restrir gyda'r cyllid a argymhellir i bob un. Dangosir pob prosiect sy'n cael ei argymell i'w gymeradwyo dan wahanol golofn yn yr atodiad:

- Benthyca Darbodus Priffyrdd – Hwn yw'r £4.1m o fenthyca darbodus i'w gefnogi o'r gyllideb refeniw fel y cymeradwywyd gan y Cyngor ar 5 Chwefror 2013.
- Cronfeydd y Cyngor – Cronfeydd yw'r rhain fel grantiau cyffredinol, derbyniadau cyfalaf, a chronfa wrth gefn heb ei gwario. Mae'r cyllid hwn am un flwyddyn yn unig.

4.10 Dyma aelodaeth y Grŵp Buddsoddi Strategol:

- Aelod Cabinet Arwain – Cyllid ac Asedau
- Aelod Cabinet Arwain – Datblygu Economaidd
- Aelod Cabinet Arwain – Moderneiddio a Pherfformiad
- Cynrychiolydd o bob Pwyllgor Craffu
- Cyfarwyddwr Corfforaethol – Uchelgais Economaidd a Chymunedol

- Pennaeth Cyllid ac Asedau
- Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Adolygwyd y prosiectau i sicrhau eu bod yn bodloni amcanion corfforaethol y Cyngor.

**6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 **Goblygiadau Cost**

Dangosir costau'r cynlluniau yn Atodiad 1. Mae'r atodiad hwn yn eithriedig ar hyn o bryd rhag ei ddatgelu i'r cyngor yn rhinwedd paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Bydd y costau Benthyca Darbodus yn cael eu talu drwy gyllideb refeniw 2013/14.

6.2 **Goblygiadau Staff/ TG/ Ystafelloedd**

Mae gofyn i bob prosiect newydd lenwi ffurflen Cynnig Prosiect neu Achos Busnes ac mae unrhyw oblygiadau penodol yn cael eu trafod bryd hynny.

6.3 **Asesu Effaith ar Newid Hinsawdd – Lliniaru ac Addasu:**

Mae prosiectau cyfalaf newydd yn destun craffu gan y Grŵp Buddsoddi Strategol. Bydd pob achos busnes yn dangos, lle mae'n berthnasol, yr allyriadau tunelli carbon cyn y prosiect ac ar ôl y prosiect, gan nodi felly a yw'r prosiect yn bositif, yn negatif neu'n niwtral o ran allyriadau carbon. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod prosiectau cyfalaf newydd wedi'u diogelu at y dyfodol a'u bod yn gallu addasu i newid hinsawdd.

Bydd defnyddio mwy neu lai o gyfarpar TG yn effeithio ar gost carbon a chostau trydan.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Bydd y dyraniadau a gynigiwyd i bob prosiect yn cael eu hailasesu cyn dechrau er mwyn cadarnhau nad oes unrhyw effaith sylweddol. Mae'r broses Asesu Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei chynnwys ym mhob cynnig yn y dyfodol am brosiectau cyfalaf.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd â Phwyllgorau Craffu ac eraill?**

Bu Penaethiaid Gwasanaeth yn cyflwyno'r cynigion. Mae cynrychiolwyr Cabinet a Phwyllgorau Craffu wedi'u cynnwys yn y broses.

Mae pob aelod wedi cael gwybod am y cynigion, gyda chopïau caled o gynigion yn cael eu gosod yn ystafell yr Aelodau a chynigion prosiect ar gael i'w gweld ar Mod.Gov

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Rhaid i'r Cyngor barhau i fuddsoddi'n briodol yn ei asedau. A gwerth gwirioneddol cyllid Llywodraeth Cymru'n dal i ostwng, gorfodir i'r Cyngor ddibynnu mwyfwy ar ei adnoddau ei hun.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

### 10.1 Risgiau cysylltiedig â pheidio â chytuno i'r argymhellion

Byddai risgiau posibl yn cynnwys diffyg cynnydd cynlluniau, colli grantiau ac aflonyddu ar wasanaethau. Byddai cyflwr asedau'n dal i waethygu heb fuddsoddiad ynddynt, a gallai hyn arwain at golli gwasanaethau pwysig.

### 10.2 Risgiau cysylltiedig â chytuno i'r argymhellion

Nid yw unrhyw brosiect cyfalaf yn rhydd o risg. Fodd bynnag, adolygir pob cynllun gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac mae hefyd yn destun monitro ac adroddiadau misol parhaus.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Dan adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol (1972), mae gofyn i Awdurdodau Lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol.